


4.1. Golygu Cynnwys - Fformatio Testun


Agorwch y cynnwys yr ydych am ei olygu. Bydd unrhyw gynnwys mewn blychau y gellir ei olygu gyda'r Golygydd HTML yn dangos bar offer uwch y man y gellir ei olygu. Mae'r botymau a'r dewislenni'r un fath â'r rhai a ddefnyddir yn Microsoft Word a meddalwedd arall a ddefnyddir i olygu testun, ond mae rhai elfennau sy'n benodol i'r System Rheoli Cynnwys.

Botymau



Dewislenni


Dewislen 'Edit'




Mae dewislen 'Edit' yn eich galluogi i ddefnyddio'r canlynol:

- **Undo** - dadwneud y newid mwyaf diweddar (ar gael fel botwm ar y bar offer hefyd, neu Ctrl+Z ar y bysellwrdd)
- **Redo** - ail-wneud y newid mwyaf diweddar (ar gael fel botwm ar y bar offer hefyd, neu Ctrl+Y ar y bysellwrdd)
- **Cut** - copïo a chael gwared ar y testun sydd wedi ei ddewis ar hyn o bryd (neu Ctrl+X ar y bysellwrdd)
- **Copy** - copïo'r testun sydd wedi ei ddewis ar hyn o bryd (neu Ctrl+C ar y bysellwrdd)
- **Paste** - gludo'r testun sydd wedi ei dorri neu ei gopïo (neu Ctrl+V ar y bysellwrdd)
- **Paste as text** - cael gwared ar unrhyw fformatio yn y testun yr ydych chi ar fin ei ludo i'r cynnwys.
- **Select all** - dewis holl gynnwys y ffenestr olygu (neu Ctrl+A ar y bysellwrdd)

- **Find and replace** - dod o hyd i air a rhoi gair arall yn ei le (neu Ctrl+F ar y bysellwrdd):



Dewislen 'Insert'




Mae dewislen 'Insert' yn eich galluogi i ddefnyddio'r canlynol:

- **Insert link**
 - **Insert section link** - mewnosod dolen i adran arall o fewn y System Rheoli Cynnwys - gweler [Taflen Wybodaeth 4.2](#), am fwy o fanylion.
 - **Insert content link** - mewnosod dolen i gynnwys penodol o fewn adran arall ar y System - mae hyn yn eich galluogi i gysylltu â phwynt penodol yn System Rheoli Cynnwys y dudalen - gweler [Taflen Wybodaeth 4.2](#), am fwy o fanylion.
 - **Link to external site** - mewnosod dolen i dudalen nad yw'n rhan o'r System Rheoli Cynnwys, e.e. safle allanol, neu system fewnol megis Primo, dolen i gyfeiriad e-bost, neu ddolen i angor yn y dudalen hon - [Taflen Wybodaeth 4.2](#), am fwy o wybodaeth.


- **Insert anchor** - mewnosod pwynt angor yn rhywle yn y cynnwys er mwyn i chi allu cysylltu gyda'r pwynt penodol hwn yn y dudalen o ddolen ar frig y dudalen - gweler [Taflen Wybodaeth 4.2](#), am fwy o fanylion.
- **Insert file link or image** – mewnosod ffeil neu lun o'r Llyfrgell Cyfryngau – gweler Taflenni Gwybodaeth [4.3](#) a [4.5](#) am fwy o fanylion.

View




Mae dewislen 'View' yn eich galluogi i ddefnyddio'r canlynol:

- **Show blocks** - amlygu blociau o destun o fewn y cynnwys, megis paragraffau, sy'n ddefnyddiol er mwyn gweld ble mae un bloc yn gorffen ac un arall yn dechrau.



- **Show invisible characters** - amlygu lle mae nodau anweledig fel 'bwllch dim toriad' a allai fod yn achosi i'r testun ymddangos mewn ffyrdd annisgwyl, e.e. bylchau ychwanegol.
- **Visual aids** - ddim yn weithredol ar hyn o bryd.
- **Fullscreen** - caniatáu i'r ffenestr olygu ddefnyddio maint llawn y sgrin, sy'n eich galluogi i weld mwy o'r cynnwys yr ydych chi'n gweithio arno. Mae'r dewislenni a'r botymau golygu yn dal i'w gweld ar frig y dudalen. Cliciwch ar yr opsiwn eto er mwyn dychwelyd i'r wedd gyffredin.
- **Source code** - gweld y cod HTML a gynhyrchwyd gan y golygydd.

Format




Mae dewislen Format yn eich galluogi i ddefnyddio'r canlynol:

- **Bold** - gwneud y testun sydd wedi ei ddethol yn drwm (hefyd ar gael fel botwm ar y bar offer, neu Ctrl+B ar y bysellwrdd)
- **Italic** - gwneud y testun sydd wedi ei ddethol yn italig (ar gael hefyd fel botwm ar y bar offer, neu Ctrl+I ar y bysellwrdd)

- **Superscript** - gwneud y testun sydd wedi ei ddethol yn uwchysgrif (testun bach wedi ei godi'n uwch na gweddill y testun e.e. 21ain)
- **Subscript** - gwneud y testun sydd wedi ei ddethol yn isysgrif (testun bach wedi ei ostwng yn is na gweddill y testun e.e. H2O)
- **Code**
- **Formats**
 - **Headings** - gwneud y testun sydd wedi ei ddethol yn bennawd o'ch dewis.
 - **Inline** - dull amgen o wneud y testun sydd wedi ei ddethol yn drwm, italig, uwchysgrif neu isysgrif.
 - **Blocks** - newid steil y testun sydd wedi ei ddethol yn baragraff - defnyddiol os ydych chi wedi newid eich meddwl ynglŷn â phennawd. Dylid anwybyddu opsiynau eraill ar y ddewislen hon.
 - **Custom Formats** Sylwer: Dim ond ar gyfer y math o destun neu wrthrych a nodir y mae'r steiliau hyn yn gweithio - ni fyddant yn gweithio ar gyfer eitemau eraill.)
 - **table-overflow** - caniatáu i chi farcio bod tabl yn rhy lydan i'w weld ar ffôn symudol, er mwyn iddo gael ei steilio i alluogi'r defnyddiwr i symud i'r chwith ac i'r dde er mwyn gweld y tabl cyfan.
 - **split-left** - eich galluogi i wneud yn siŵr bod eich paragraff yn aros ar wahân i'r un blaenorol fel bod delweddau ddim yn gorgyffwrdd
 - **notification** - caniatáu i chi amgáu eich paragraff mewn blwch â graddliw amlwg
 - **notification-centre** - caniatáu i chi amgáu eich **paragraff** mewn blwch â graddliw amlwg a'r testun wedi'i ganoli


- **image-menu-large** - caniatáu i chi farcio eich **rhestr bwledi** fel dewislen ddelwedd sy'n defnyddio delweddau mawr (250px o led)
 - **image-menu-small** - caniatáu i chi farcio eich **rhestr bwledi** fel dewislen ddelwedd sy'n defnyddio delweddau bach (120px o led)
 - **box-container** - caniatáu i chi roi eich **paragraff** mewn amlinell blwch
 - **BTN** - caniatáu i chi farcio dolen i gael ei harddangos fel botwm
 - **centre** - caniatáu i chi ganoli eich delwedd
 - **float-left** - caniatáu i chi wneud i'ch delwedd hofran i'r chwith gyda'r testun yn llifo o'i amgylch
 - **float-none** - caniatáu i chi wneud i'ch **delwedd** eistedd o fewn y testun ar linell newydd
 - **curve-box** - caniatáu i chi roi eich **paragraff** mewn blwch gyda chefnidir llwyd
 - **clearfix** - eich galluogi i wneud yn siŵr bod eich delwedd yn aros ar wahân i'r paragraff blaenorol fel bod delweddau ddim yn gorgyffwrdd
- **Clear formatting** - cael gwared â phob fformatio (ar gael fel botwm ar y bar offer hefyd).

Table




Mae dewislen 'Table' yn eich galluogi i weithio gyda thablau. Am ragor o wybodaeth am ddefnyddio tablau, ewch i [Taflen Wybodaeth 4.4](#).

- **Insert table with column headings** - creu tabl newydd gyda rhes pennyn ar draws y top. Gallwch ddewis nifer y rhesi a'r colofnau drwy ddewis sgwariau yn y grid:




- **Insert table with column and row headings** - creu tabl newydd gyda rhes pennyn ar draws y top a cholofn pennyn ar y chwith (e.e. ar gyfer amserlen). Gallwch ddewis nifer y rhesi a'r colofnau drwy ddewis sgwariau yn y grid:



- **Table properties** - gweld priodweddau'r tabl (yn llwyd oni bai bod cyrchwr eich llygoden mewn tabl ar hyn o bryd). **Sylwer:** peidiwch â newid dim yn y fan hon os gwelwch yn dda, ac eithrio Alignment.
- **Table caption/summary** - ychwanegu capsiwn a/neu grynodeb i'r tabl (yn llwyd oni bai bod cyrchwr eich llygoden mewn tabl ar hyn o bryd). Mae capsiynau'n helpu defnyddwyr i ddod o hyd i dabl a deall ei gyd-destun. Dyma'r brif ffordd y bydd darllenwyr sgrin yn adnabod tablau. Mae crynodeb yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y caiff tabl ei drefnu a gwybodaeth am sut i lywio trwy ei ddata.
- **Delete table** - cael gwared â'r tabl (yn llwyd oni bai bod cyrchwr eich llygoden mewn tabl ar hyn o bryd).
- **Cell** - gweld pob opsiwn ar gyfer cell:
 - Cell properties
 - Merge cells
 - Split cells
- **Row** - gweld pob opsiwn ar gyfer rhes:
 - Insert row before
 - Insert row after
 - Delete row

- Row properties
- Cut row
- Copy row
- Paste row before
- Paste row after
- **Column** - gweld pob opsiwn ar gyfer colofn:
 - Insert column before
 - Insert column after
 - Delete column
 - Cut column
 - Copy column
 - Paste column before
 - Paste column after

Tools



Mae dewislen 'Tools' yn eich galluogi i ddefnyddio'r canlynol:

- **Source code** - gweld y cod HTML a gynhrychwyd gan y golygydd